

**Adroddiad Ymgynghoriad ar Gyfuno Arfaethedig**  
**Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan**

**Conwy**

**Ionawr 2015**

		<b>Tudalen</b>
1	Cyflwyniad	3
2	Ymgynghoriad	3
2.1	Cyhoeddi'r Ymgynghoriad	3
2.2	Cyfarfod Ymgynghori	4
2.3	Ymgynghoriad gyda Phlant	4
3	Adborth i'r Ymgynghoriad	5
3.1	Adborth gan Rieni/Llywodraethwyr a'r Gymuned	5
3.2	Adborth ESTYN	5
4	Penderfyniad y Cabinet	6

## 1. Cyflwyniad

Gorffennodd Cyngor Bwrdeistref Sirol gyfnod o ymgynghori'n ddiweddar ynghylch y cynnig i gyfuno Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan ar 31 Awst 2015. Cychwynnodd y cyfnod ymgynghori ar 8 Hydref 2014 gan ddod i ben ar 18 Tachwedd 2014.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgol (Cymru) 2013 sy'n gofyn i God Trefniadaeth Ysgol 2013 gael ei gyhoeddi a rhoi arweiniad i'r cyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethol).

Bydd y ddogfen hon yn nodi'r camau a gymerwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol, yn cyfeirio at y canfyddiadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad a bydd yn anelu at ateb a thrin y cwestiynau a roddwyd i'r Awdurdod.

## 2. Ymgynghoriad

### 2.1 Cyhoeddi'r Ymgynghoriad

Cychwynnodd yr ymgynghoriad ffurfiol gyda chyhoeddi rhybudd yn y North Wales Pioneer ar ddydd Mercher, 8 Hydref 2014. Anfonwyd copïau o'r ddogfen ymgynghori i 450 derbynnydd ar ffurf copi papur ac e-bost. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar dudalen gwe Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ddwyieithog fel yr oll o ddogfennau dilynol sy'n ymwneud â'r cynnig. Mae'r tabl isod yn nodi'r rhai a gafodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori, fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgol.

Enw/Sefydliad	Nifer a gafodd
Rhieni, athrawon a staff Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan	400
Llywodraethwyr Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan	16
Pennaeth a llywodraethwyr Ysgol Llandrillo yn Rhos / Ysgol Babanod Mochdre ac Ysgol Cystennin / Ysgol Babanod T. Gwynn Jones / Ysgol Iau Hen Golwyn	10
Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru Llanelwy ac Esgobaeth Gatholig Wrecsam	2
Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir Ddinbych	1
Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir Gwynedd	1
Gweinidog dros Addysg a Sgiliau Cymru	1
Adran Rheoli ac Effeithiolrwydd Ysgol Llywodraeth Cymru	1
Aelod y Cynulliad a'r Aelod Seneddol sy'n cynrychioli ardal y cynigion	2
Cynghorydd Sirol Conwy dros Wardiau Glyn	2
Cyngor Cymuned Bae Colwyn	1
Estyn	1
Undebau llafur athrawon a staff	8
Gwe	1
Taith	1
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	1
PPPI Conwy	1
Cymunedau'n Gyntaf Conwy	
Dechrau'n Deg Conwy	1

## 2.2 Cyfarfod Ymgynghori

Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliwyd cyfarfod rhwng swyddogion Addysg a rhanddeiliad Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan. Cafodd pawb a gafodd gopi o'r ddogfen ymgynghori wahoddiad i'r cyfarfod ar 23 Hydref yn Ysgol Babanod Glan y Môr. Roedd presenoldeb yn y cyfarfod yn isel gyda hyd at 15 o bobl yn bresennol yn y cyfarfod gan gynnwys rhieni, staff a llywodraethwyr.

Dygwyd sylw at brif bwyntiau'r ddogfen ymgynghori ac eglurwyd fod pholisi'r awdurdod i gyfuno ysgolion babanod ac iau wedi arwain at y cyfuniad arfaethedig.

Hefyd eglurwyd y broses statudol i sicrhau eglurdeb o gymharu gyda'r ymgynghoriad blaenorol gydag Ardal Bae Colwyn, byddai'r rhybudd statudol yn cau'r ddwy ysgol yn gyfreithlon ac yn agor yr ysgol newydd a ffurfiwyd.

## 2.3 Ymgynghoriad gyda Phlant

Yn ystod yr ymgynghoriad gyda phlant o Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan rhannwyd gwybodaeth ar y ddwy ysgol yn 'ymuno' gyda'r disgyblion.

Dangoswyd cyflwyniad i'r disgyblion yn egluro'r cyfuniad arfaethedig a beth fyddai'n ei olygu iddyn nhw (sioe sleidiau enghreifftiol isod). Roedd bob disgybl yn ymwybodol iawn o'r newidiadau arfaethedig ac roeddynt yn frwdfrydig iawn gyda'u cwestiynau a'u syniadau.

Roedd rhai o'r cwestiynau a godwyd gan ddisgyblion yn cynnwys – beth fyddai'n ymuno'r ddwy ysgol? Pryd fydd yn dechrau? A fyddant yn cael amser i ffwrdd o'r ysgol? Sut fydd amser cinio yn cael ei sortio? A fyddai'r cyngor ysgol yn penderfynu ar enw/wisg ysgol newydd?

Roedd bob disgybl yn cytuno yr hoffent fuarth chwarae mwy gyda llochesau ar gyfer y gaeaf. Bu i ddisgyblion hŷn yn y grŵp holi os byddai digon o adnoddau i'r disgyblion iau pe byddai'r ysgolion yn cyfuno.

**What this means**

**New Name**

Both Ysgol Glan y Mor and Ysgol Pendorlan will stay in the same place

1 Headteacher & Teachers

1 Governing Body

There will be some building work

The school will have a new name

Governing Body

Pennaeth Head Teacher

School

School

### 3. Adborth i'r Ymgynghoriad

Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cafodd Gwasanaethau Addysg Conwy 11 o ymatebion i'r ddogfen ymgynghori. Mae'r tabl isod yn dangos ffurf yr ymateb a gafwyd.

Ffurf yr ymateb	Nifer yr ymatebion a gafwyd
Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	9
Llythyr / E-bost	2
<b>Cyfanswm yr ymatebion</b>	<b>11</b>

O'r ymatebion a gafwyd, gafwyd 10 ymateb gan rieni/llywodraethwyr o'r ysgol a'r gymuned a chafwyd un gan ESTYN.

Roedd bob ymateb a gafwyd yn cefnogi'r cynnig i gyfuno Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan.

#### 3.1 Adborth Rhieni/Llywodraethwyr a'r Gymuned

Mae'r adborth rydym wedi'i gael gan rieni a llywodraethwyr yn cytuno â'r cynnig. Cwestiynwyd y cynllun lliwiau ar gyfer yr adeilad newydd a fyddai'n cyfuno'r ddwy ysgol ac yn ystod y cyfarfod sicrhawyd rhieni a llywodraethwyr y byddai'r lliwiau yn cael eu trafod yn ystod y broses adeiladu.

#### 3.2 Adborth ESTYN

Mae'r ymateb a ddarperir gan ESTYN yn cael ei baratoi trwy ateb set o gwestiynau i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol wedi cymryd i ystyriaeth o bob anghenraid addysgol o fewn eu cynigion. Wrth ateb '**A yw'r cynigion yn debygol o gynnal neu wella safon darpariaeth addysgol yn yr ardal?**' Dywedodd ESTYN:

*"Mae'r cynnig yn rhan o raglen moderneiddio ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn adolygu nifer y disgyblion, cydraddoldeb ariannu ar gyfer disgyblion ac addasrwydd i bwrpas adeiladau ysgol presennol ar draws yr awdurdod.*

*Ym marn Estyn, mae'r cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol yn yr ardal."*

*Bu i Estyn hefyd wneud y sylw canlynol ar y cynigion:-*

*Mae'r awdurdod lleol wedi darparu rhesymeg glir ar gyfer cyfuno'r ddwy ysgol fel rhan o strategaeth foderneiddio ysgolion cynradd Conwy. Mae hyn i gyfuno ysgolion babanod ac iau, a fydd yn sicrhau cydraddoldeb ariannu ar gyfer disgyblion a lleihau nifer y lleoedd gwag ar draws y ddwy ysgol."*

*"Mae'r cynigydd wedi nodi manteision ac anfanteision disgwylidig y cynnig yn glir ac yn deg o gymharu gyda'r status quo. Mae'r manteision yn cynnwys dilyniant addysg a'r cwricwlwm i ddisgyblion, gan drosglwyddo'n awtomatig o'r cofnod sylfaen i gyfnod allweddol 2."*

#### **4. Cabinet**

Cyfarfu aelodau Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 9 Rhagfyr 2014 i drafod yr ymgynghoriad ar y cynnig i gyfuno Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan.

Darparwyd y Cabinet wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad, y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet oedd parhau gyda'r Rhybudd Statudol i benderfynu cyfuno Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan. Mae hyn yn cynnwys cyfnod gwrthwynebu ffurfiol o 28 diwrnod pan fo'n rhaid darparu unrhyw wrthwynebiad i'r cyfuno mewn ysgrifen. Wedi hyn bydd yr Awdurdod Lleol yn dychwelyd i'r Cabinet i benderfynu'r penderfyniad terfynol.